**LC1477**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

# Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Colli Galluedd yn ystod Prosiect Ymchwil) (Cymru) 2007

Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud o dan adrannau 30, 34, 64 a 65 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (p.9) ("y Ddeddf"). Maent yn darparu ar gyfer ymchwil penodol, sy'n ymwneud â phobl heb y galluedd i gydsynio iddo, i gyflawni'n gyfreithlon yr hyn y byddai fel arall yn rhaid cydymffurfio â gofynion adran 30 o'r Ddeddf.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylwadau

Nid yw'r pwerau a enwir i wneud y Rheoliadau hyn mewn grym hyd yma. Rhaid i'r prif bwerau (adrannau 30 a 34) gael eu cychwyn gan y Cynulliad Cenedlaethol, ac mae Gorchymyn Cychwyn priodol yn rhan o'r un grwp o Offerynnau Statudol â'r Rheoliadau hyn. Yn y cyfamser mae adran 13 o Ddeddf Dehongli 1978 yn darparu'r pwer i wneud yr is-ddeddfwriaeth cyn y gorchymyn cychwyn, ond rhaid cychwyn y pwerau cyn i'r Rheoliadau ddod i rym.

Fodd bynnag, gan yr Arglwydd Ganghellor y mae'r pwer i gychwyn adrannau 64(1) ac 65(1), a rhaid arfer y pwer hwnnw cyn i'r Rheoliadau hyn, a gaiff eu gwneud gan ddibynnu'n rhannol ar yr adrannau hynny, ddod i rym.

**David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**6 Mawrth 2007**